

## PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod Hybrid Anghyffredin, 24 Ebrill, 2024

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cyngorydd J. Protheroe (Cadeirydd); Cyngorydd E. Goodjohn (Is-Gadeirydd); Cyngorwyr G.D.D. Carroll, P. Drake, C.P. Franks, H.C. Hamilton, S.M. Hanks, Dr. I.J. Johnson, B. Loveluck-Edwards a N.J. Wood.

Hefyd yn bresennol: Cyngorwyr J. Aviet, L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Berfformiad ac Adnoddau) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

### EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cyngorydd S.J. Haines.

### EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth, 2024 fel cofnod cywir.

### EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Gwnaeth y Cyngorydd Ewan Goodjohn ddatganiad o ddiddordeb yn Eitem 4 ar yr Agenda – Gwaith i Drechu Tlodi a'r Argyfwng Costau Byw Presennol. Natur ei ddiddordeb oedd bod ei fam yn Gadeirydd canolfan gymunedol a oedd yn derbyn cyllid gofod cynnes y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad. Roedd hwn yn fuddiant personol, nid oedd yn rhagfarnu.

Dywedodd y Cyngorydd C.P. Franks ddatganiad o ddiddordeb yn Eitem 4 ar yr Agenda – Gwaith i Drechu Tlodi a'r Argyfwng Costau Byw Presennol. Natur ei ddiddordeb oedd ei gysylltiadau â Llyfrgell Dinas Powys, a fu'n rhan o'r fenter Mannau Cynnes. Roedd gan y Cyngorydd oddefeb i siarad yn unig ar faterion yn ymwneud â Llyfrgell a Chanolfan Weithgaredd Dinas Powys (gan gynnwys ceisiadau grant) wrth gael eu trafod yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Bro Morgannwg a Dinas Powys (paragraffau (ch), (dd), (e) a (f) o'r rheoliadau perthnasol).

EITEM AGENDA 4. GWAITH I DRECHU TLODI A'R ARGYFWNG COSTAU BYW PRESENNOL (CAC) –

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'r gwaith sy'n cael ei wneud o ran trechu tlodi a'r argyfwng costau byw a oedd yn her hollbwysig o fewn Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor 2023-24 a Chynllun Cyflawni Blynyddol newydd 2024-25.
- (2) BOD Siarter Budd-daliadau Cymru a Strategaeth Tlodi Plant Cymru yn cael eu nodi.
- (3) NODI'r defnydd o'r gronfa costau byw wrth gefn i gefnogi'r rhai mewn angen.
- (4) BOD y Pwyllgor yn cefnogi ac yn cymeradwyo y dylid cyflwyno adroddiadau ar waith costau byw yn y dyfodol i'r Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel.
- (5) Y DYLID ailedrych ar fformat yr adroddiad er mwyn mynd i'r afael â'r sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor ar hyn.
- (6) BOD y Cabinet yn ystyried parhau i ddarparu cymorth ychwanegol yn ystod gwyliau haf yr ysgol i'r rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd).

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1-5) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (6) I'r Cabinet ystyried sylwadau'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau fel rhan o'i ystyriaeth o gynnydd gwaith i fynd i'r afael â thlodi a'r argyfwng costau byw.

EITEM AGENDA 5. ADOLYGIAD DYSGU GOFYNNOL (CAC) –

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI adroddiad yr Adolygiad Dysgu Gofynnol.
- (2) BOD y Cabinet yn ystyried y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor mewn perthynas â'r dull gweithredu arfaethedig a chwmpas y dysgu gorfodol/gofynnol ar gyfer staff y Cyngor:
  - Pwysigrwydd darparu mwy o fodiwlau a chanllawiau TGCh 'sut i' fel rhan o'r broses sefydlu er mwyn codi ymwybyddiaeth o TGCh a'r defnydd o dechnoleg ddigidol yn fwy effeithiol.
  - Er mwyn sicrhau, ar ddechrau'r broses sefydlu a'r dysgu gofynnol dilynol ar gyfer staff y Cyngor, y cymerwyd ymagwedd fwy 'camwahanol' er mwyn osgoi unrhyw ymarferion 'ticio blychau' diangen a lleihau'r effaith ar bwysau gwaith staff.

- Edrych ar ddull gweithredu ar y cyd ag Awdurdodau Lleol eraill o ran hyfforddiant a dysgu er mwyn cyflawni darbodion maint ar gyfer amcanion hyfforddi tebyg.

(3) NODI'r ymateb i argymhellion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas â Chwythu'r Chwiban.

(4) BOD adroddiad pellach yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor unwaith y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau.

#### Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn i farn y Pwyllgor gael ei hystyried gan y Cabinet.

(3&4) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

#### EITEM AGENDA 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETHAU GWIRFODDOL MORGANNWG (GGM) 2022/23 (SG) –

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM) 2022/23.

#### Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.